**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-KS-5363-19

Russell George AC
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Government.Committee.Business@gov.wales

28 Ionawr 2020

Annwyl Russell,

Diolch am roi o'ch amser i drafod gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o fewn Cymru. Hoffwn hefyd ddiolch i chi am eich cydweithrediad parhaus o ran yr ymchwiliad penodol hwn i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o safbwynt craffu ar y Llywodraeth a'i pholisïau.

Gwnes ymrwymo yn ystod fy nadl yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2019 y buaswn yn adolygu fy ymateb i ddau o argymhellion y Pwyllgor; sef camau 1 a 10. Mae fy swyddogion wedi cael cyfle i drafod argymhellion y Pwyllgor a hefyd fy ymatebion gyda Chadeiryddion y tair Partneriaeth dros yr wythnosau diwethaf. Rwyf hefyd wedi cael cyfle i ystyried ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2020 pan gytunais i ysgrifennu atoch er mwyn crynhoi'r sefyllfa bresennol.

Gan droi'n gyntaf at yr hyn a nodais yn y Cyfarfod Llawn, mae cam gweithredu 1 yn ymwneud ag ailfrandio'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel Byrddau Cynghori ar Sgiliau Rhanbarthol. Rwyf wedi trafod y mater hwn â Chadeiryddion y tair Partneriaeth ac rydym yn parhau i gredu y dylent gadw eu brand presennol. Teimlwn ei bod yn bwysig sicrhau bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn parhau'n bartneriaethau gwirfoddol; gwnaeth un Cadeirydd ein hatgoffa y byddai costau cyfreithiol ynghlwm wrth unrhyw gamau i newid enw. Mae cam gweithredu 10 yn ymwneud â lefel y manylder a ddefnyddir yn argymhellion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gwnaethom drafod hyn mewn cryn fanylder ac er ein bod yn cytuno mai prif swyddogaeth y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw rhoi cyfarwyddyd strategol i Lywodraeth Cymru mae angen sicrhau bod yr wybodaeth honno'n ddigon manwl fel y gallwn gael trafodaethau buddiol â'r rhwydwaith darparu. Mae'r lefel honno o fanylder yn destun trafod a byddwn yn gweithio ar hyn yn ystod 2020. Credwn ein bod yn cytuno â'r Pwyllgor o safbwynt yr awydd i gael system sy'n effeithiol ond sydd heb unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen.

Gwnaethom drafod sawl mater arall yn fwy cyffredinol yn ystod y sgwrs:

1) Llywodraethu ac Atebolrwydd - rydym yn bwriadu adolygu hyn yn ystod 2020-21. Byddai unrhyw newidiadau a fyddai'n deillio o hyn yn dod i rym o fis Ebrill 2021. Wrth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymgymryd â'r gwaith hwn rydym yn awyddus i sicrhau bod natur wirfoddol y partneriaethau yn cael ei chynnal, gan geisio sicrhau bod ystod yr aelodaeth yn cynnwys y sectorau diwydiant pwysig ymhob rhanbarth.

2) Cyllid - Rwy'n cydnabod yn llwyr fod yr ymrwymiad cyllid gan Lywodraeth Cymru i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn hanfodol. Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith o ymgysylltu â chyflogwyr a derbyn adborth realistig gan y farchnad bydd angen i ni ystyried a oes modd i ni wella'r sefyllfa bresennol. Mae'r cyllid ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi'u cymeradwyo ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021 a bydd yn cael ei ddyrannu drwy grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae swyddogion wrthi'n adolygu lefel y cymorth ariannol er mwyn cefnogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth iddynt dyfu yn ystod 2021-2022. Gwnes hefyd ymrwymo i ystyried y ffordd orau o wella gwybodaeth y cyhoedd am gylch gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Yn naturiol bydd angen i unrhyw gynnydd a awgrymir o ran cyllid gyd-fynd â'r gofynion eraill sydd ar gyllidebau adrannau.

3) Data - Rydym yn cytuno na allwn fod mewn sefyllfa lle y mae diffyg hyder ynghylch casgliadau ein hamcanestyniadau sgiliau a'r cymhwysedd technegol a dadansoddol cysylltiedig sydd ynghlwm wrth Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Nid oes unrhyw ffordd o strwythuro asesiadau o sgiliau rhanbarthol, ac mae angen i'r cynnyrch terfynol fanteisio ar ystod eang o ffynonellau data, gan gynnwys ddata eilaidd cadarn a chydnabyddedig fel ystadegau gwladol, a hefyd ymchwil ansoddol. Credaf, fodd bynnag, ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cynnal eu hymreolaeth o safbwynt y systemau casglu data a'r gwasanaethau dadansoddol y maent yn eu comisiynu.

4) Cyflogwyr mawr - Gwnaethom drafod a ddylai fod gan gwmnïau o'r fath un Bartneriaeth ar eu cyfer. Cyn belled ag y gall cyflogwr o'r fath ddarparu ei wybodaeth ar lefel ranbarthol credwn ei bod hi'n gwneud synnwyr i wneud cyflwyniad unigol i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a hynny ar sail rhanbarth. Byddai'r Bartneriaeth honno'n gallu rhaeadru'r wybodaeth berthnasol i'r Partneriaethau eraill. Byddwn yn ystyried hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport